**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr ABERYSTWYTH a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda ddydd Iau, 20 Hydref 2022**

**Cynghorwyr Sir Ceredigion:** Keith Henson (Cadeirydd)**,** Endaf Edwards a Gethin Davies

**Swyddogion:** Gerwyn Jones, Owen Morgan, Katy Spain, Nia Jones a Dana Jones

**Defnyddwyr yr Harbwr / Rhanddeiliaid:** Andy Bradick, Chris Asham, Mike Lloyd

(7:35pm – 7:50pm)

1. **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd Mr Geraint Wheeler am nad oedd modd iddo fod yn y cyfarfod.

2. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2022**
Cytunwyd i gadarnhau bod Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2022 yn gywir.

**Materion yn Codi**
Dim

**3 Diweddariad gan y Gwasanaethau Harbyrau**
Rhoddodd yr Harbwrfeistr y diweddaraf am y gwasanaeth, fel y rhoddwyd yn y rhifyn diweddar o Dyfroedd Tawel 3/ *Calm Waters 3*. Tynnwyd sylw at y canlynol o ran Harbwr Aberaeron:-

- Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion – cytunwyd y byddai copi o'r polisi yn cael ei gylchredeg i bob Aelod gyda'r cofnodion.
- Cynllun Rheoli Gwastraff y Porthladd
- Carthu
- Llithrfa - dywedodd un o ddefnyddwyr yr harbwr ei fod wedi cwympo ar y llithrfa o achos yr algae. Nodwyd bod y llithrfa wedi'i chlirio ond, am nad oedd modd mwyach i'r Cyngor ddefnyddio glanhawr gyda chemegion i'w waredu, fod yr algae yn dod yn ôl ynghynt. Cedwir llygad ar hyn.
- Iechyd a Diogelwch – Cyfrifoldeb Pawb
- Glanio
- Adborth

Nodwyd y byddai'r adolygiad o'r Polisi Rheoli Harbyrau yn digwydd ac y byddai'r drafft cyntaf yn cael ei anfon at yr holl randdeiliaid am eu hadborth, a hynny yn gynnar yn y flwyddyn nesaf. At ei gilydd, nodwyd bod y Polisi yn addas i'r diben.

Diolchodd yr aelodau i Reolwr yr Harbwr am y diweddariad.

**4 Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr**

Gofynnodd y Cynghorydd Endaf Edwards am ddiweddariad ar y Marina. Darllenodd yr Harbwrfeistr y datganiad canlynol ar ran y gwasanaeth Datblygu Economaidd:-

*Nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i wneud sylw ar waith menter breifat, ac ni fyddai'n briodol gwneud sylw ar y dyfalu diweddar ynghylch y busnes.*

*O ran arian cyhoeddus, mae gan y Cyngor ddyletswyddau ymddiriedol sy'n golygu bod angen gwneud gwaith cyfreithiol ac ariannol ar ddiwydrwydd dyladwy unrhyw bartner posib a allai dderbyn cyllid. Gwnaed asesiadau rheolaidd drwy gydol yr amser, a gwneir adolygiadau diweddaru pan ddaw gwybodaeth ddiweddar i law.*

*Parthed Bargen Dwf Canolbarth Cymru, nid yw'r cynnig a gyflwynwyd gan y Cyngor yn cynnwys y cwmni fel partner ffurfiol ar hyn o bryd. Bwriad y cais cychwynnol am arian yw datblygu'r seilwaith cyhoeddus a'r asedau sy'n berchen i'r Cyngor, gan fynd i'r farchnad i'w datblygu siŵr o fod. Gall y Cyngor gadarnhau felly nad oes newidiadau ar hyn o bryd o ran y dyhead cyffredinol a'r cynlluniau ar gyfer y cynnig penodol hwn.*

*Hefyd mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael £10.8m o gyllid ar gyfer Aberystwyth o'r Gronfa Ffyniant Bro (Levelling Up ) – dyma gais pecyn a oedd yn cynnwys gwaith ychwanegol ar yr Hen Goleg, a gwelliannau i'r Promenâd ac ardal yr Harbwr.*

*Mae adolygiad buan yn cael ei gynnal i ddeall unrhyw oblygiadau posib ar yr elfen o'r prosiect sy'n cynnwys y marina. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i wireddu'r dyhead cyffredinol o adfywio'r dref, gan gynnwys dyheadau mwy hirdymor ar gyfer ardal yr harbwr. Mae cysylltu'n well â'r dref, ynghyd â gwell cyfleusterau hamdden, yn parhau i fod yn ganolog i amcanion y cynllun.*

*Hyd nes y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, a bod manylion y cynllun diwygiedig wedi'u cytuno gyda Llywodraeth y DU, ni fydd y Cyngor mewn sefyllfa i wneud sylw pellach ar y manylion.*

*Mae cynllun cyffredinol y Gronfa Ffyniant Bro yn mynd rhagddo'n dda, gyda gwaith ar y gweill ar yr Hen Goleg a gwaith cynllunio yn mynd rhagddo ers tro ar brosiect y Promenâd. Rhoddir gwybodaeth am y rhain maes o law, ynghyd â'r sefyllfa ddiweddaraf am brosiect y Marina.*

**Rheilins y Prom gyferbyn â'r Ro Fawr**
Sylwodd y Cynghorydd Endaf Edwards fod bwlch yn rheilins y Prom gyferbyn â'r Ro Fawr *(South Marine Terrace)* ac roedd cwymp o chwe throedfedd ar yr ochr draw. Adroddwyd nad oedd y wal hon yn rhan o ystâd yr Harbwr a bod angen ei riportio drwy Clic er mwyn i'r gwasanaeth perthnasol ymdrin â'r mater.

**Carthu**

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oedd carthu wedi digwydd i lawr tua'r Pontŵn. Doedd hwn ddim yn weithgaredd yr oedd Gwasanaeth yr Harbwr yn gwneud trefniadau ar ei gyfer. O'r blaen roedd gweithredwr y Marina wedi'i wneud drwy Garthu drwy Chwistrellu.

Dywedodd Rheolwr yr Harbwr ei fod yn gweithio gydag Ecoleg i gael trwydded ar gyfer carthu yn y flwyddyn nesaf. Ymgynghorir hefyd â rhanddeiliaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru.

**5. Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf**

Pennwyd nos Iau, 16 Mawrth 2023 ar gyfer cyfarfodydd nesaf Defnyddwyr yr Harbyrau. Cynhelir y cyfarfod yn rhithiol dros Zoom/Teams am 7pm.